Community Justice Interventions Wales

Ymyrraeth Er Cyfiawnder Cymunedol Cymru

Ymyrraeth Er Cyfiawnder Cymunedol Cymru Arolwg Blynyddol 2007/2008

European Union
European Social Fund
Investing in jobs and skills

Adroddiad y Cadeirydd

Croeso i Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr cyntaf Ymyrraeth er Cyfiawnder Cymunedol Cymru (CJIW).

Yn y tudalennau a ganlyn byddwch yn darganfod rhai o'r ystod eang o ymyriadau yr ydym ni wedi'u datblygu ledled Cymru gyda chefnogaeth ein partneriaid yn y sector statudol a budd-ddeiliaid eraill.

Wrth inni edrych yn ôl dros gyflawniadau'r flwyddyn mae'n anodd credu mai dim ond yn Ebrill 2007 y daeth CJIW i fod a'i fod yn ystod y cyfnod byr hwn wedi ymsefydlu eisoes fel corff sy'n chwarae rhan fawr yn y Trydydd Sector yng Nghymru. Wrth gydnabod hyn, rhaid talu teyrnged i'r gwaith a wnaed gan Wobr Dug Caeredin yng Nghymru er 1996 i ddatblygu partneriaethau i ddarparu gwasanaethau gydag Ardaloedd Brawf a Thimau Troseddwyr Ifanc, a'i gwnaeth yn bosibl estyn y cyfle i gymryd rhan yn y Wobr i bobl ifanc ddifreintiedig. Ar ôl deng mlynedd o lwyddiant, daeth yn eglur bod y galw yn y maes hwn wedi datblygu y tu hwnt i allu strwythur y Wobr ac, o gofio'r galw cynyddol am wasanaethau y tu allan i gylch gorchwyl ac ystod oedran y Wobr, rhoddodd Gwobr Dug Caeredin bob anogaeth i sefydlu sefydliad elusennol ar wahân.

Ers i'r cyfle hwn godi, mae'n dda gennyf adrodd fod CJIW wedi ymateb yn egniol trwy ehangu ei bortffolio o gyfleoedd i rai sydd mewn cysylltiad ag asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn ogystal â rhai sydd dan anfantais gymdeithasol. Rydym wedi ehangu'r ystod oedran y rhai sy'n derbyn gwasanaeth gennym yn sylweddol y tu hwnt i gylch gorchwyl 14-25 y Wobr ac mae gennym bellach bobl yn cymryd rhan o rai saith oed yn Abertawe sy'n dilyn yr Her Gwasanaeth Antur, i rai saith deg oed yn Wrecsam sy'n cymryd rhan yn y Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd - a phobl o bob oed rhwng y ddau begwn!

Eleni, gwelwyd CJIW yn arloesi mewn darparu gwasanaethau newydd a chyffrous, gan gynnwys y Cynllun Cosb Gymunedol Uwch lwyddiannus a ddatblygwyd trwy nawdd Partneriaethau Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, sydd wedi galluogi rhai 16 i 18 oed i gwblhau dedfrydau gwaith di-dâl ar wahân i droseddwyr sy'n oedolion, yn ogystal â gwerth ychwanegol mewn darparu cyfleoedd i wneud oriau ychwanegol yn arwain at Wobr Dug Caeredin. Rhaid imi gyfeirio hefyd, wrth gwrs, at y Wobr Ymdrech a ddatblygwyd gan CJIW, sef rhaglen o fodiwlau datblygiad personol a achredir gan y Rhwydwaith Coleg Agored sy'n estyn y cyfleoedd a gynigir gan Wobr Dug Caeredin i rai dros 25 oed. Fe'i lansiwyd gan y Gweinidog Carcharau a Phrawf, y Gwir Anrhydeddus David Hanson AS, mewn seremoni yn yr Wyddgrug yn Hydref 2007, gyda chymorth ariannol Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau Gogledd Cymru (DIP), ac mae'r Wobr Ymdrech wedi bod yn hynod boblogaidd ac fe'i cydnabyddir gan bawb fel llwyddiant nodedig.

Braf neilltuol yw nodi cydnabyddiaeth i effaith CJIW mewn meysydd eraill. Yn ystod ein blwyddyn gyntaf dyfarnodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru wobrau arfer da inni am ein cynllun 'Academi Bêl-droed' ac am ein gwaith yn bartneriaeth DAWN , yn ogystal ag enwebu CJIW ar gyfer gwobr bellach am y prosiect i wella'r amgylchedd yn y Fflint. Fodd bynnag, testun y balchder mwyaf yw Craig Hughes, sydd wedi symud o ddefnyddio gwasanaethau i wirfoddoli ac yna i swydd trwy CJIW ac a dderbyniodd gwobr gyntaf

Ymddiriedolaeth Butler i ddefnyddwyr gwasanaethau prawf gan y Dywysoges Anne ym Mawrth 2008.

Mae'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli'n rhoi blaenoriaeth amlwg i sicrhau bod holl staff CJIW yn derbyn hyfforddiant llawn ac yn gwbl gymwys i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r safon ofynnol. O ganlyniad, gofynnir i bawb ar y staff ennill cymwysterau mewn Cymorth Cyntaf, Asesu Risg, darpariaeth RhCA a'r safon 'Hyfforddi Hyfforddwyr' a berchir o fewn y diwydiant (Dinas ac Urddau 7303). Yn ogystal, mae llawer o staff unigol wedi ennill cymwysterau mewn rheoli (Tystysgrif mewn Rheolaeth Broffesiynol), gweithgareddau awyr agored (Gwobr Arweinydd Grwpiau Cerdded, Gwobr Arweinydd Alldeithiau Prydeinig, Canŵio) a Chymorth Cyntaf ar Fynyddoedd.

Hoffwn dynnu sylw'r darllenwyr hefyd at y rôl y mae'r bobl sy'n cymryd rhan yn CJIW yn ei chwarae i wneud ein cymunedau'n well. Yn ogystal â chwblhau miloedd o oriau o waith gwirfoddol i wella'r amgylchedd gydag ymgyrch Cymru Lân ar gyfer adran Gwasanaeth eu Gwobr, maent wedi casglu dros £5,300 rhyngddynt trwy weithgareddau noddedig i sicrhau gwely gofal canser i Ysbyty Glan Clwyd.

Ar ôl blwyddyn gyntaf lwyddiannus dros ben gyda chymorth i dros 1,700 o bobl a dyfarnu bron 2,500 o gymwysterau, mae'r Bwrdd yn dal i fod yn ymwybodol fod llawer her i ddod eto. Mae angen goruchwylio twf cyflym y sefydliad, yn cynnwys dyblu nifer y staff a'r cyllid mewn blwyddyn, yn ofalus er mwyn sicrhau datblygiad cydlynol, ac mae'r ansicrwydd ynghylch cyllid parhaus yn gofyn dull gweithredu mesuredig er mwyn cyflawni datblygiad cynaliadwy. Serch hynny, mae llawer o gynlluniau cyffrous am fentrau pellach i drawsnewid bywydau trwy ymyrryd lle bo anghenion arbennig, gan ffocysu'n gynyddol ar lywio gwasanaethau fel bod defnyddwyr gwasanaethau'n chwarae rhan ganolog a gweithredol, yn ogystal â sicrhau ein bod yn parhau i roi blaenoriaeth i weithgarwch achrededig.

I gloi, ar ran y Bwrdd, rhaid imi ddiolch i'n partneriaid sy'n ein hariannu am eu cefnogaeth hael, i'r tîm rheoli, i'n staff rheng flaen, i'n gwirfoddolwyr ac, wrth gwrs, i'n defnyddwyr gwasanaethau, a, wneud y flwyddyn gyntaf yn un mor llewyrchus. Mae egni ac ymroddiad rhyfeddol pawb wedi galluogi CJIW yn ei flwyddyn gyntaf i gymryd camau mawr yn ei ymgyrch i 'ddatblygu'r rhai y mae'n gweithio â nhw iddynt allu cyflawni eu potensial llawn fel unigolion ac fel aelodau o gymdeithas'.

Dr Dewi Roberts
Cadeirydd
Bwrdd CJIW

Richard Evans
Prif Swyddog
CJIW

"Mae gwneud y Wobr wedi fy helpu i wneud pethau na fyddwn i erioed wedi'u gwneud fel arall. Rwy'n fwy hunanhyderus ac rwy wedi cwrdd â phobl dda. Roeddwn i wedi cyrraedd croesffordd - fe allwn i fod wedi dilyn y llwybr anghywir, ond bellach rwy'n astudio cyfrifeg ac mae gen i ddyfodol."

Megan, 23
Sir Gaerfyrddin

Gwobr Dug Caeredin

Fel conglfaen ymyriadau CJIW ledled Cymru, mae poblogrwydd ac effeithiolrwydd Gwobr Dug Caeredin yn rhan sefydlog o'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol yng Nghymru ers 12 mlynedd ac mae dros 8,000 o bobl ifanc wedi cymryd rhan ynddi. Mae'r Wobr ar gael i bawb rhwng 14-25 oed, ond mae'r mwyafrif llethol o'r rhai sy'n cymryd rhan trwy CJIW y tu hwnt i'w chyrraedd traddodiadol neu'n cael eu cadw rhag cymryd rhan oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd. Mae'r gwasanaeth a ddarparwn yn caniatáu cyfle i bobl dan anfantais ennill y Wobr a mwynhau buddiannau cysylltiedig mewn addysg a chyflogaeth.



"Mae ennill y Wobr Ymdrech wedi gwneud imi deimlo'n fwy cadarnhaol am fy mywyd, trwy fy ngwneud yn fwy hyderus ac yn barotach at waith. Mae hi wedi newid cyfeiriad fy mywyd."

Richie, 26
Wrecsam

Y Wobr Ymdrech

Lansiwyd y Wobr Ymdrech gan y Gwir Anrhydeddus David Hanson AS, y Gweinidog Carcharau a Phrawf. Mae hon yn fenter gan CJIW i ymestyn y cyfleoedd a gynigir gan Wobr Dug Caeredin i rai dros 25 oed. Trwy lenwi bwlch mewn darpariaeth a nodwyd gan ein partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol, mae'r Wobr Ymdrech yn caniatáu cyfle i bobl hŷn gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau difyr a heriol sy'n arwain at raglen fodiwlaidd, holistig ar ddatblygiad personol sy'n derbyn achrediad.

"Fy ngwaith i yw trefnu a chyfarwyddo prosiectau, gan helpu pobl ifanc i symud ymlaen i gynllunio'u dyfodol. Mae'n fater o drefnu tipyn o amser gydag unigolion a'u helpu i weld y gallant wneud rhywbeth pwrpasol yn eu bywydau."

Dave Evans, Swyddog Datblygu CJIW

Cosb Uwch yn y Gymuned

Mae CJIW yn gweithio gyda Thimau Troseddwyr Ifanc ledled gogledd Cymru i ddarparu cyfleodd gwaith di-dâl ystyrlon a heriol i rai 16-18 oed. Ychwanegir gwerth trwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin ac ennill cymwysterau ychwanegol y tu allan i'r oriau a bennir yn eu Gorchmynion, yn ogystal ag mewn darparu gwasanaeth penodedig ar wahân i droseddwyr sy'n oedolion. Mae gwerthuso ar y prosiect hwn wedi dangos cynnydd sylweddol yn y gyfradd o bobl ifanc sy'n llwyddo i gwblhau eu gorchmynion cymunedol.

"Mae llawer o droseddwyr yn byw bywydau digon di-drefn ac mae'r math yma o beth yn creu strwythur a fydd yn eu cadw ar y trywydd iawn. Mae'r cyfle ychwanegol i ennill cymwysterau gan y Rhwydwaith Coleg Agored yn ffynhonnell swyddi potensial a gwirioneddol yn y dyfodol."

Clifton Robinson, Cadeirydd – Ardal Brawf Gogledd Cymru

Sgiliau Byw Annibynnol/Sgiliau at y Dyfodol

Mae llawer o fewnbwn addysgol CJIW wedi cael eu cyfuno yn y rhaglenni Sgiliau Byw Annibynnol/Sgiliau at y Dyfodol sydd wedi cael eu mapio'n ofalus er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau meithrin trosedd a nodwyd yn nogfen 'Pathways to Prevent Re-offending' NOMS. Mae'r cwrs, sy'n para am 12 wythnos, yn cynnwys sesiynau damcaniaethol ac ymarferol yn ffocysu ar arian a dyled, dinasyddiaeth, llety, camddefnyddio sylweddau, addysg a hyfforddiant, yn ogystal ag ymdrin ag agweddau meddwl, syniadau ac ymddygiad y bobl sy'n cymryd rhan. Achredir y rhaglen gan y Rhwydwaith Coleg Agored ac mae'n cynnig cyfleoedd dilyniant trwy Wobrau Dug Caeredin ac Ymdrech. Yn 2008 cyflwyno y pedair Ardal Brawf yng Nghymru gais llwyddiannus ar y cyd am arian ar gyfer rhaglen 'Future Skills Plus' yn seiliedig ar ymyriadau CJIW.

"Mae'n ffordd dda o ddysgu sgil a mater o weithio mewn tîm yw bod yn aelod o fand. Mae'n golygu gweithio, bod yn amyneddgar, cyfrannu syniadau a gwrando ar bobl eraill. Mae'r bobl eraill sy'n cymryd rhan wedi symud o fod heb ond ychydig iawn o brofiad cerddorol i lwyfannu perfformiadau mewn amser anhygoel o fyr - sy'n rhyfeddod!"

John Byrne, Swyddog Datblygu CJIW

TAPE – Cerdd a Ffilm

Ein cydweithrediad llwyddiannus diweddaraf yw gweithio gyda chwmni Cerdd a Ffilm sy'n darparu cyfleoedd cyffrous i gymryd rhan mewn prosiectau cerddoriaeth a ffilmiau. Mae CJIW a TAPE wedi cydweithio i ddatblygu a gosod cyfarpar mewn canolfan adnoddau ym Mae Colwyn ac, wrth gwrs, rydym wedi cefnogi datblygiad y band o ddefnyddwyr gwasanaethau - Wild Stallions! Mae'r fenter ddiweddaraf ar y cyd gan CJIW/TAPE yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau i gynhyrchu DVD yn hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigir gan y prosiect DAWN.

"Pe a bawn i yma mae'n debyg y byddwn i'n gorwedd yn y gwely. Mae'r sesiynau hyfforddi wedi bod yn waith caled ond yn werth chweil iawn. Rwy'n mwynhau."

Callum, 20
Sir Ddinbych

Academi Bêl-droed

Mae'r Academi Bêl-droed a barodd am chwe wythnos a gynhaliwyd ar y cyd â chwmni Xtra Time Soccer wedi darparu gweithgarwch difyr ac adeiladol i 150 o bobl ifanc. Wedi inni dderbyn canmoliaeth helaeth Wgan yr Heddlu, Timau Prawf a Throseddwyr Ifanc, ein bwriad yw cynnal Academi arall yn haf 2009.



"Mae'r mwyafrif o droseddwyr yn dod o gefndiroedd difreintiedig ac mae ganddynt sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael. Mae datblygu'r sgiliau hyn yn golygu gwella ansawdd byw a chael eich derbyn fel rhan werthfawr o'r gymuned."

Chris Hughes,
Arweinydd y Tîm Polisi,
Adran Plant, Addysg
Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Rhwydwaith Coleg Agored

Trwy ddatblygu ein partneriaeth lwyddiannus gyda Choleg Cymunedol YMCA Cymru, mae CJIW bellach yn cynnig ystod helaeth o unedau RhCA i bobl ifanc sydd am ddychwelyd i fyd dysgu. Thema sy'n rhan gyffredin mewn llawer o'n hymyriadau yw achrediad gan y RhCA ac mae llwybr dilyniant o Dystysgrif i Ddiploma bellach ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae holl staff CJIW wedi derbyn hyfforddiant llawn i ennill safon Hyfforddi Hyfforddwyr Dinas ac Urddau'r diwydiant (CG 7303) i ddarparu'r rhaglen. Darparwyd dros 600 o'r cymwysterau hyn yn 2007/8 a'n nod yw cyrraedd 1,000 yn 2008/9.

"Mae'r Her yn rhoi cyfle i bobl ifanc sydd wedi'u dieithrio o ddysgu sgiliau byw newydd, eu herio'u hunain a chael antur. Mae'n sicr bod disgyblion a oedd yn ddihyder yn y gorffennol wedi gwella ac roedd pob un yn mwynhau'r gwersi."

Vicki Greenhill,
Swyddog Datblygu CJIW

Her Gwasanaethau Antur (Adventures Services Challenge)

Mae'r Cynllun yn gweithio mewn partneriaeth â Thîm Troseddwyr Ifanc Abertawe ac mae wedi llwyddo i gysylltu rhai 8-14 oed dan anfantais â gweithgareddau adeiladol a chyffrous sy'n gwasanaethu fel llwybr i gysylltu maes o law â Gwobr Dug Caeredin.

“Mae gwreiddiau Cylchoedd mewn dulliau cyfiawnder adferol o ateb anghenion rhai sydd wedi troseddu, rhai sydd wedi dioddef a’u cymunedau.”

Adroddiad gwerthuso Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd

Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd

Mae’r cynllun blaengar hwn, sy’n deillio o bartneriaeth yng Nghanada yn cynnwys cymdeithas y Crynwyr ac asiantaethau cyfiawnder troseddol, wedi bod yn effeithiol iawn o ran ailintegreiddio unigolion risg uchel sydd wedi cyflawni troseddau rhyw i’w cymunedau. Mae gwerthuso ar y cynlluniau yn y DU wedi nodi eu bod yn effeithiol o ran atal aildroseddu o 70%. Mae’r cynllun yng ngogledd Cymru, sy’n cael ei ddatblygu gan Reolwr Troseddwyr cymwysedig a gyflogir gan CJIW, eisoes wedi recriwtio deg ar hugain o wirfoddolwyr sy’n cefnogi a monitro deg o droseddwyr risg uchel. Ar ben hynny, mae CJIW yn chwarae rôl o bwys mewn sefydlu Cylchoedd y DU, sef corff ambarél sy’n ceisio safoni arfer ar draws y wlad. Mae’r prosiect Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd yn enghraifft nodedig o ‘gyfiawnder cymunedol’ adferol yn cynnwys asiantaethau statudol, sefydliadau Trydydd Sector, grwpiau cred a gwirfoddolwyr yn cydweithio i fynd i’r afael ag aildroseddu yn eu cymunedau mewn ffordd greadigol.



"Mae cynlluniau fel hwn (prosiect CJIW i wella'r amgylchedd yn Ffrwd Swinchiard yn y Fflint) yn gwneud gwahaniaeth i'r gymuned a gall pobl weld canlyniadau cadarnhaol. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i bobl weld troseddwyr yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau lle'r oedden nhw wedi achosi problemau yn y gorffennol."

Y Gwir Anrhydeddus David Hanson AS, Gweinidog Carcharau a Phrawf

Gwirfoddoli

Mae pobl ifanc, o bob cefndir, am gyfrannu at eu cymunedau hefyd! Mae cyfranogwyr CJIW wedi cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau gwirfoddol, yn fwyaf arbennig y cynlluniau i wella'r amgylchedd gyda'n partneriaid yn yr ymgyrch Cymru Lân a thrwy drefnu gweithgareddau noddedig i godi £5,300 (hyd yma) tuag at gost gwely gofal canser yn Ysbyty Glan Clwyd.

Dathlu Llwyddiant

Mae CJIW yn rhoi blaenoriaeth arbennig i gydnabod a dathlu cyflawniadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio lleoliadau o ansawdd ac yn gwahodd cyfeillion a theuluoedd, gwesteion arbennig a staff gwasanaethau prawf a thimau troseddwyr ifanc. Mae nifer o fanteision ychwanegol yn yr achlysuron hyn o ran cymell darparwyr ddefnyddwyr gwasanaethau, dangos llwyddiant i fudd-ddeiliaid a denu cyhoeddusrwydd da. Ym mhob mis bron yn y flwyddyn mae digwyddiad i gydnabod cyflawniad trwy CJIW yn digwydd yn rhywle yng Nghymru!

CJIW yn y wasg

Rydym yn ceisio defnyddio'r wasg leol a chyfryngau lleol i wrthweithio'r llif cyson o gyhoeddusrwydd gwael a roddir i bobl ifanc yn y cyfryngau cenedlaethol ac, wrth inni wneud hynny, sicrhau'r cyhoedd y gall pobl ifanc chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau. Dyma sampl yn unig o'r penawdau a gafodd CJIW eleni.

Mwy am ein gwasanaethau:

Yn ystod 2007/8 mae CJIW wedi:

- Gweithio gyda 1783 o ddefnyddwyr gwasanaethau, sef cynnydd o 163% rhagor 2006/7.
- Darparu 1792 o unedau Rhwydwaith Coleg Agored a chymwysterau eraill, sef cynnydd o 874% rhagor 2006/7.
- Helpu 69 o bobl ifanc i ennill Gwobrau Dug Caeredin, sef cynnydd o 13% rhagor 2006/7.
- Helpu 722 o bobl ifanc i ennill tystysgrifau adrannol Gwobr Dug Caeredin, sef cynnydd o 58% rhagor 2006/7.
- Helpu 220 o ddefnyddwyr gwasanaethau i gael gwaith neu fynd ymlaen i addysg bellach.
- Datblygu a gweithredu cynllun Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd llwyddiannus iawn i fonitro a darparu cefnogaeth yn y gymuned i droseddwyr risg uchel yng Ngogledd Cymru. Y cynllun yw'r unig un yng Nghymru ac un o bedwar yn unig ledled y DU ac fe'i datblygwyd mewn partneriaeth a chymuned y Crynwyr.
- Yn ystod y chwe mis cyntaf recriwitiwyd, hyfforddwyd a lleolwyd 29 o wirfoddolwyr o'r gymuned gred ac ehangach.

- Dyrannu cylchoedd i 11 o droseddwyr risg uchel sy'n derbyn cefnogaeth yn y gymuned, a'r Cylchoedd yn monitro eu gweithgareddau, mewn partneriaeth â phanel Diogelu'r Cyhoedd Aml-asiantaeth.
- Dyfeisio, trefnu a rhedeg 'Academi Bêl-droed' haf ledled gogledd Cymru yn cynnwys 150 o bobl ifanc yn cymryd rhan yn ystod chwe wythnos o wyliau ysgol.
- Trefnu a goruchwylio 4,110 o oriau o waith di-dâl ar gyfer rhai 16-18 oed yng ngogledd Cymru, gyda 42 o bobl ifanc yn llwyddo i gwblhau'r elfen hon yn u Gorchmynion.
- Ennill 673 o dystysgrifau addysgol yn cynnwys 28 o Wobrau Efydd Dug Caeredin a 2 Wobr Arian ar sail gwaith ychwanegol a wnaed yn wirfoddol.

- Helpu 91 o bobl ifanc i wneud gwaith di-dâl i gael swyddi neu fynd ymlaen i addysg bellach.
- Cychwyn partneriaeth lwyddiannus gyda TAPE – Cerdd a Ffilm Cymunedol ym Mae Colwyn, yn creu cyfleoedd i gymryd rhan yn fewnol mewn prosiectau cerdd, celf a ffilm i rai sy'n cymryd rhan mewn DAWN a CJIW yn arwain at ffurfio band CJIW ei hun – the Wild Stallions!
- Datblygu a lansio'r 'Wobr Fenter', sef rhaglen ddatblygiad personol fodiwlaidd a achredir gan y Rhwydwaith Coleg Agored ar gyfer rhai dros 25 oed.

- Helpu defnyddwyr gwasanaethau i godi dros £5,000 tuag at gost gwely gofal canser yn Ysbyty Glan Clwyd yn Sir Ddinbych, trwy weithgareddau noddedig.

- Ehangu ein partneriaeth â Cholegau Cymunedol YMCA Cymru, gan ganiatáu darparu 620 o unedau RhCA yn 2007/8, gyda'r bwriad o ddarparu 1000 yn 2008/9.

- Gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ar Fenter Cylchred Ieuenctid Sir y Fflint sy'n galluogi pobl ifanc rhwng 10 a 17 oed i gymryd rhan mewn rhaglen chwe wythnos i ddysgu sgiliau newydd mewn perthynas â diogelwch a chynnal a chadw beiciau, ffitrwydd a hamdden gan ddefnyddio beiciau a fenthycir gan yr Heddlu.

- Lansio rhaglen achrededig Sgiliau Byw Annibynnol, gan gyfuno ymyriadau addysgol â llwybrau atal aildroseddu, yn cynnwys cyllid a dyled, llety, cyffuriau ac alcohol, ETE ac agweddau, meddwl ac ymddwyn.

- Darparu'r Her Gwasanaeth Antur, sef cynllun gweithgareddau triphlyg integredig i bobl ifanc 8 i 14 oed, mewn partneriaeth â Thîm Troseddau Ieuenctid Abertawe. Mae'r Cynllun yn paratoi pobl ifanc sydd am fynd ymlaen i gwblhau Gwobr Dug Caeredin. Cymerodd 55 o bobl ifanc ran yn y Cynllun, gyda 28 ohonynt yn ennill tystysgrifau.

- Cynyddu incwm grantiau o £450,000 yn 2006/7 i £1,040,000.

- Cynyddu staffio o 14 i 25.

- Cynnal rhaglen hyfforddi staff i gynnwys Cymorth Cyntaf, Asesu Risg, darparu RhCA a C&G 7303 'Hyfforddi Hyfforddwyr' i holl aelodau'r staff.

- Derbyn 71 o adroddiadau cadarnhaol yn y wasg a naw sylw yn y cyfryngau darlledu.

- Cynnal naw digwyddiad 'Dathlu Llwyddiant' a fynychwyd gan bron 500 o bobl a gymerodd ran a gwesteion yn cynnwys y Gwir Anrhydeddus David Hanson AS, Lembit Opik AS, Uchel Siryfion Clwyd, Gwynedd, Dyfed, Gorllewin Morgannwg a Phowys a Phrif Swyddogion Prawf Gogledd Cymru ac Ardal Brawf Dyfed-Powys.

- Derbyn gwobrau am arfer da gan Ymddiriedolaeth Butler a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru.

Ein Bwrdd a'n staff

Ar 31 Mawrth 2008

Bwrdd CJIW

- **Cadeirydd: Dr Dewi Wyn Roberts MA (Cantab), MB, B. Chir, MRCS, LRCP**
  Addysgwyd Dr Dewi Wyn yn Ysgol Ramadeg Biwmares a Cholegau Downing, Caergrawnt, lle'r astudiodd feddygaeth. Ar ôl deng mlynedd ar hugain fel ymarferwr cyffredinol mae bellach yn treulio'i amser ym myd chwaraeon a materion ieuenctid ac mae ganddo ddiddordeb neilltuol mewn materion sy'n effeithio ar bobl ifanc dan anfantais. Yn ogystal â'i ddyletswyddau fel Cadeirydd CJIW, mae newydd gwblhau cyfnod fel Uchel Siryf Gwynedd.

- **Mr Gwion Lewis BA, BCL, LLM**
  Mae Gwion Lewis yn fargyfreithiwr yn Siambrau Landmark, Llundain, lle mae'n arbenigo mewn cyfraith gyhoeddus, cyfraith amgylcheddol a chynllunio a hawliau dynol. Graddiodd o Goleg Iesu, Rhydychen (BA, BCL) ac mae ganddo LLM mewn cyfraith hawliau dynol rhyngwladol o Brifysgol Efrog Newydd. Mae'n gyn-ysgolhaig Fulbright DU-UDA (2003-04) ac yn awdur sawl erthygl a llyfrau am gyfraith amgylcheddol a hawliau iaith, gan gynnwys Hawl i'r Gymraeg (Y Lolfa, 2008).

- **Mrs Stephanie Price**
  Mrs Price yw Cyfarwyddwr Gwobr Dug Caeredin yng Nghymru ers Awst 2005. Mae ei rôl yn cynnwys rheoli strategol a sicrwydd ansawdd i'r Wobr yng Nghymru ac mae hi'n aelod allweddol o Bwyllgor Gwaith y Wobr yn y DU.

- **Mr William Thom LL.B.**
  Mae Mr Thom yn gyn-arolygydd ditectif ac wedi iddo astudio'r gyfraith fel myfyriwr hŷn ym Mhrifysgol Glasgow, mae bellach yn gweithredu fel eiriolwr amddiffyn troseddwyr yn llysoedd yr Alban.

- **Mr James Turner MA (Hons) Caergrawnt; FCIM; MIIM**
  Mae Mr Turner wedi mwynhau gyrfa lwyddiannus mewn busnes mewn sawl swydd flaengar. Wedi hynny, bu'n Rheolwr Gyfarwyddwr Awdurdod Datblygu Cymru, ac yn Gadeirydd Canolfan Cymru Ewrop ym Mrwsel. Mae gan Mr Turner dros ddeng mlynedd o brofiad hefyd fel cyfarwyddwr anweithredol yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu ar Fwrdd y Llynges Frenhinol, y Bwrdd Marchnata Gwlân ac Ymddiriedolaeth GIG Robert Jones ac Agnes Hunt - fel Is-gadeirydd, ac mae'n aelod o Fwrdd Archwilio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Oddi ar 1999, mae'n rhedeg ei gwmni ymgynghorol ei hun gan arbenigo mewn rheolaeth weithredol dros dro ar lefel byrddau.

- **Cynghorydd arbennig i'r Bwrdd: Yr Athro Howard Williamson CBE**
  Mae Dr Howard Williamson yn Athro Polisi Ieuenctid Ewropeaidd yng Nghyfadran y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Morgannwg. Gweithiai cyn hynny ym Mhrifysgolion Rhydychen, Caerdydd a Copenhagen, yn ogystal â gweithio fel gweithiwr ieuenctid proffesiynol am dros 20 mlynedd. Mae wedi cyfrannu at ddatblygiad polisi ieuenctid yng Nghymru ac ar draws gwledydd yr Undeb Ewropeaidd a Chyngor Ewrop. Mae bellach yn aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac yn Ymddiriedolwr i Wobr Dug Caeredin. Mae wedi cyhoeddi'n helaeth ar ystod o faterion ieuenctid, yn enwedig am ddieithrwch cymdeithasol, gan gynnwys The Milltown Boys Revisited

(Berg 2004), astudiaeth ddilyniant o grŵp o ddynion a gyfarfu am y tro cyntaf 25 mlynedd cyn hynny pan oeddynt yn droseddwyr ifanc yng nghanol y 1970au. Dyfarnwyd CBE iddo yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2002 am ei wasanaethau i bobl ifanc.

Tîm Rheoli CJIW

- Richard Evans MinstF (Cert), Cert Mgmt (Open): Prif Swyddog ac Ysgrifennydd y Cwmni
- Rosaleen Cameron: Rheolwraig Ranbarthol (Gogledd)
- Claire Hicks: Rheolwraig Ranbarthol (Canolbarth a De)
- Beverley Williams: Swyddog Adnoddau Dynol a Chyllid

Mae gan CJIW 21 o Swyddogion Datblygu sy'n gweithio mewn timau lleol yr ardaloedd awdurdod lleol a ganlyn:

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Ynys MÔN
- Castell-nedd Port Talbot
- Sir Benfro
- Powys
- Abertawe
- Wrecsam

Am gydraddoldeb

Mae CJIW wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl weithgareddau. Rydym yn parhau i ymdrechu i greu diwylliant sy'n amrywiol ac sy'n cydnabod ac yn datblygu potensial ein holl staff a defnyddwyr gwasanaethau.

Ein Hamcanion

Nodau CJIW, fel y'u cofnodir gyda'r Comisiwn Elusennau, yw "hyrwyddo addysg a lleihau trosedd ac ymddygiad anghymdeithasol trwy ddarparu neu gynorthwyo i ddarparu cyfleusterau hamdden, cyngor, cyfarwyddyd, cymwysterau achrededig ac addysg er budd lles cymdeithasol y trigolion hynny yng Nghymru a all ddod i gysylltiad â'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol a/neu a all fod mewn perygl o wneud hynny, neu bobl sydd dan anfantais gymdeithasol, fel y gallant chwarae rhan lawn fel unigolion ac aelodau cymdeithas.'

Ein Cenhadaeth

Cenhadaeth CJIW yw 'datblygu'r bobl y mae'n gweithio â hwy fel y gallant gyflawni eu potensial llawn fel unigolion ac aelodau cymdeithas'.

Cyfarwyddwyr CJIW yn torri'r deisen yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd ar 29 Mawrth 2007. (O'r chwith i'r dde, Mrs Price, Mr Thom, Mr Lewis a Dr Roberts)

Datganiad ar Weithgareddau Ariannol

Am y cyfnod 17 Hydref 2006 hyd 31 Mawrth 2008

	Nodyn	Cronfa gyffredinol £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cyfanswm 2008 £
ADNODDAU'N DOD I MEWN				
Adnoddau'n dod i mewn o gronfeydd a godwyd:				
Incwm gwirfoddol a rhoddion		110,341	-	110,341
Incwm trwy fuddsoddiadau	3	7,176	-	7,176
Adnoddau'n dod i mewn o weithgareddau elusennol:				
Grantiau	4	834,132	89,280	923,412
CYFANSWM ADNODDAU'N DOD I MEWN		951,649	89,280	1,040,929
ADNODDAU A WARIWYD				
Gweithgareddau elusennol	5	623,051	67,753	690,804
Costau rheoli	5	2,879	-	2,879
CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD		625,930	67,753	693,683
SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD		325,719	21,527	347,246
Balansau a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2008	10	325,719	21,527	347,246

CYFRIF INCWM A GWARIANT

Ni pharatowyd cyfrif incwm a gwariant ar wahân am fod y wybodaeth berthnasol i'w chael yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol.

Datganiad ar Weithgareddau Ariannol

Mantolen ar 31 Mawrth 2008

	Nodiadau	£	2008 £
ASEDAU GOSODEDIG			
Asedau diriaethol	7		5,698
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	8	112,629	
Arian yn y banc ac ar law		232,664	
		345,293	
CREDYDWYR: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	9	3,745	
ASEDAU CYFREDOL NET			341,548
			347,246
CRONFEYDD			
Cyffredinol			325,719
Cyfyngedig	10		21,527
			347,246

Paratowyd y datganiadau ariannol hy yn unol â darpariaethau arbennig Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 1985 mewn perthynas â chwmnïau bychain ac â'r Safon Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Llai (effeithiol Ionawr 2007).

AR RAN Y BWRDD:

Dewi W. Roberts

Dr Dewi Roberts – Cadeirydd

11 August 2008

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Am y cyfnod 17 Hydref 2006 hyd 31 Mawrth 2008

CYFANSWM YR ADNODDAU A WARIWYD

	Sylfeini Dyraniadau	Cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth £	Costau buddiolwyr £	Trefn lywodraethol £	Cyfanswm 2008 £
Cost uniongyrchol gweithgareddau					
Costau staff	**Uniongyrchol**	543,521	-	-	543,521
Teithio	**Uniongyrchol**	59,592	2,626	-	62,218
Darpariaeth ar gyfer gweithgareddau	**Uniongyrchol**	-	59,270	-	59,270
Hysbysebu	**Uniongyrchol**	2,005	-	-	2,005
Ffioedd cyfrifon ac archwilio	**Uniongyrchol**	-	-	2,879	2,879
Costau cefnogi ar gyfer gweithgareddau					
Treuliau swyddfa	**Uniongyrchol**	11,978	1,966	-	13,944
Cyfathrebu	**Uniongyrchol**	7,663	513	-	8,176
Dibrisiant	**Uniongyrchol**	1,670	-	-	1,670
		626,429	64,375	2,879	693,683

COSTAU STAFF

	2008 £
Cyflogau	463,278
Costau nawdd cymdeithasol	45,558
Cyfraniadau i bensiynau	12,532
	521,368

Cyflogwyd chwech ar hugain o staff amser llawn gan yr Ymddiriedolaeth trwy gydol y cyfnod.

Nid enillodd neb ragor na £60,000 y flwyddyn.

Ni dderbyniodd yr Ymddiriedolwyr, na neb a oedd yn gysylltiedig â hwy, unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn. Derbyniodd pedwar o ymddiriedolwyr ad-daliadau am dreuliau wrth fynychu cyfarfodydd, gyda chyfanswm o £1,000.

Ein Partneriaid

Mae CJIW yn ddiolchgar iawn i'r budd-ddeiliaid canlynol sydd wedi darparu'r cymorth ariannol angenrheidiol i gynnal y gweithgareddau a amlinellir yn yr adroddiad.

- Ardal Brawf Gogledd Cymru
- Ymddiriedolaeth Brawf Dyfed-Powys
- Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau Gogledd Cymru
- Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau Dyfed-Powys
- Gwobr Dug Caeredin
- Tîm Troseddwyr Ifanc Abertawe
- Tîm Troseddwyr Ifanc Gwynedd MÔN
- Tîm Troseddwyr Ifanc Canol Gogledd Cymru
- Tîm Troseddwyr Ifanc Castell-nedd Port Talbot
- Y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd
- Coleg Cymunedol YMCA Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Crimebeat
- Ymgyrch Cymru Lân

Mae CJIW yn elusen gofrestredig (rhif 1118291) ac yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant (rhif 5969772).

Aelod o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Banc: The Co-operative Bank, PO Box 250, Delf House, Southway, Skelmersdale WN8 6WT

Archwilwyr: WJ James a'i Gwmni, Bishop House, 10 Wheat Street, Aberhonddu, Powys LD3 7DG

Prif Swyddfa CJIW
Oak House
12 The Bulwark
Aberhonddu
Powys LD3 7AD
Ffôn: 01874 623283
E-bost: post@cjiw.org
www.cjiw.org

Prif Swyddfa CJIW
Oak House, 12 The Bulwark, Aberhonddu, Powys. LD3 7AD
Ffôn: 01874 623283 E-bost: post@cjiw.org www.cjiw.org

daithlygwyd gan Basics 01633 882260 jon@basicsdesign.co.uk